



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

I Bob Parti â Buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010080

Dyddiad: 1 Chwefror 2019

Annwyl Syr/Madam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 16

Cais gan Horizon Nuclear Power Limited am Orchymyn sy'n Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Hysbysiad o Archwiliad Safle â Chwmni

Ysgrifennwn i'ch hysbysu y bydd yr Archwiliad Safle â Chwmni canlynol yn cael ei gynnal ddydd Mercher 13 Chwefror a dydd Iau 14 Chwefror 2019. Mae rhestr ddrafft o leoliadau i ymweld â nhw wedi'i hamlinellu yn **Atodiad A** i'r llythyr hwn, a bydd y rhaglen lawn yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan ddim hwyrach na'r wythnos cyn yr Archwiliad Safle â Chwmni.

A wnewch chi nodi, cyn yr amser dechrau ar ddiwrnod cyntaf yr Archwiliad Safle â Chwmni, y bydd yr Awdurdod Archwilio yn cael golwg ar leoliad y Cyfleuster All-lwytho Morol (MOLF) yn Ardal Datblygu arfaethedig Wylfa Newydd. Am resymau logistaidd a diogelwch, mae angen cyfyngu ar y niferoedd sy'n mynd i'r safle hwn ac felly dim ond cynrychiolwyr yr Ymgeisydd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn fydd yn mynd gyda'r Awdurdod Archwilio. Bydd nodyn yn rhoi crynodeb o'r rhan hon o'r ymweliad yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr Archwiliad Safle â Chwmni.

Er yr uchod, sylwch fod croeso i bartion â buddiant i ymuno â'r archwiliad ar fannau amrywiol ar hyd y llwybr.

Nodwch y bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal archwiliadau pellach heb gwmni yn ystod yr Archwiliad hefyd.

Hysbysiad a Rhaglen ar gyfer Archwiliad Safle â Chwmni

Dyddiad	Man cyfarfod	Amser	Cyfeiriad y Man Cyfarfod
Dydd Mercher 13 Chwefror 2019	Ardal Datblygu Wylfa Newydd.	Dechrau am 09:00	Maes Parcio'r Pysgotwyr (y cod post agosaf yw LL67 0DN)
Dydd Iau 14 Chwefror 2019	Roadking Truckstop, Caergybi, Parc Cybi,	Dechrau am 08:15	Roadking Truckstop Caergybi, Parc Cybi, Kingsland, Caergybi LL65 2YQ

Yn yr archwiliad safle

Nodwch nad yw archwiliad yr Awdurdod Archwilio o safleoedd yn gyfle i roi unrhyw sylwadau llafar ar y prosiect na thrafod tystiolaeth. Cyfle ydyw i'r Awdurdod Archwilio i edrych ar y nodweddion ffisegol y gellir eu gweld ar y safleoedd, neu o'r safleoedd. Efallai y gwahoddir cyfranogwyr gan yr Awdurdod Archwilio i nodi nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb. Mae croeso i'r rheiny sy'n dymuno gwneud hynny gyfrannu yn Gymraeg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn ystod yr archwiliad safle.

Dillad

Bydd yn angenrheidiol i bob parti wisgo esgidiau cryf priodol a dillad diddos rhag y tywydd. Argymhellir bod cyfranogwyr yn dod â siacedi llachar ac yn eu gwisgo wrth gerdded ar y briffordd gyhoeddus.

Ymuno â'r archwiliad safle

Bydd yr archwiliad yn symud yn ei flaen o safle i safle, ac mae'r rhai sy'n mynychu, lle bo modd, i ddarparu eu trafniadaeth eu hunain i'r lleoliadau amrywiol. Bydd yr archwiliad ym mhob safle yn agored i bawb, ac fe'i cynhelir ar droed o'r lleoliadau parcio. Mae amserau bras wedi'u hychwanegu. Nid oes modd rhagweld yn union faint gymer pob rhan o'r archwiliad, ac felly amserlen ddangosol ydyw. Dylai partïon sy'n dymuno ymuno â'r archwiliad fynychu'r man cychwyn a hysbysebwyd yn brydlon – bydd manylion hyn yn cael eu rhoi yn y rhaglen lawn.

Ni fydd yr Awdurdod Archwilio yn aros am bartïon nad ydynt yn bresennol yn y man cychwyn ar yr amser dynodedig. Dylai partïon sy'n bwriadu ymuno ar hyd y llwybr hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn **canol dydd Ddydd Iau 7 Chwefror 2019** a chadarnhau:

- rhif ffôn cyswllt;
- p'un a fyddant yn mynychu'r archwiliad cyfan neu safleoedd dethol;
- os ydynt yn mynychu safleoedd dethol, y lleoliad(au) y byddant yn mynychu'r archwiliad;

Nodwch, er mwyn sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle, mae'n hanfodol fod partïon yn hysbysu'r Arolygiad os ydynt yn dymuno mynychu'r archwiliad erbyn **canol dydd Ddydd Iau 7 Chwefror 2019**.

Safleoedd ar dir preifat

Ceir mynediad at dir preifat trwy ganiatâd bob amser gan y sawl sy'n ei reoli; gall deiliaid tai, meddianwyr a thirfeddianwyr wrthod caniatáu i rai unigolion sydd yng nghwmni'r Awdurdod Archwilio fynd ar eu tir. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu p'un ai bwrw ymlaen â'r rhan honno o'r archwiliad ai peidio, a gall ofyn i'r rheiny y gwrthodwyd mynediad iddynt i aros tu allan.

Arhosiad Byr

Nodwch na fydd lluniaeth yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, mae amser wedi'i neilltuo ar gyfer arhosiad yn ystod yr archwiliad safle, pan fydd cyfranogwyr yn gallu defnyddio cyfleusterau cinio hefyd – amlinellir y manylion yn y rhaglen lawn. Gwneir trefniadau hefyd os oes modd ar gyfer arosiadau byr yn ystod y bore a'r prynhawn.

Hysbysiadau

Er mwyn sicrhau bod archwiliad yr Awdurdod Archwilio yn rhedeg yn hwylus, dylid hysbysu'r Rheolwr Achos Kay Sully am unrhyw newidiadau o ran mynychu yn y cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost uchod, a hynny cyn gynted ag y bo modd a dim hwyrach na **chanol dydd Ddydd Iau 7 Chwefror 2019**. Darparwch fanylion cyswllt a sicrhewch fod yr Arolygiaeth Gynllunio yn cael gwybod am unrhyw ofynion mynediad arbennig ar gyfer unrhyw gyfranogwyr.

Canslo

Nodwch, pe bai'n rhaid canslo'r Archwiliad Safle â Chwmni oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd, sy'n annhebygol, byddwn yn ymdrechu i gysylltu â mynychwyr ymlaen llaw, ond byddem yn eich cyngori i wirio gwefan prosiect yr Arolygiaeth Gynllunio yn rheolaidd; gellir ei gweld yma:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/?ipcsection=overview>

Os oes unrhyw ymholiadau pellach gennych, mae pob croeso i chi gysylltu â'r Tîm Achos.

Yr eiddoch yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Aelod Arweiniol y Panel Arolygwyr Archwilio

Atodiad A – Rhestr ddrafft o leoliadau i ymweld â nhw

Rhestr ddrafft o leoliadau i ymweld â nhw

Diwrnod 1: Dydd Mercher 13 Chwefror 2019

Amser	Lleoliad
08:15am	Yr Awdurdod Archwilio a chynrychiolwyr yr Ymgeisydd, Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod yn Swyddfa Safle Wylfa Newydd (LL67 0AA) ar gyfer cliriad diogelwch.
09.00am	Maes Parcio'r Pysgotwyr (y cod post agosaf yw LL67 0DN) Cerdded i dwmpathau coediog y Fonesig Sylvia Crowe, SoDdGA Tre'r Gof, safle'r campws llety a Phenrhyn Wylfa, yn cynnwys safle'r ardal gemau amldeffnydd a'r ollyngfa dŵr oeri.
11.00am	Arhosiad byr posibl
11.30am	Maes Parcio Traeth Bach (LL67 0HA), Gorllewin Cemaes Cerdded tua'r gorllewin ar hyd Llwybr Arfordir Cymru i olygfan gynrychioliadol 13
12.00 canol dydd	Maes Parcio Traeth Bach (LL67 0HA), Gorllewin Cemaes Cerdded tua'r de ar hyd gorllewin Cemaes ar llwybr troed 20/007/1 at yr A5025
12.45pm	Cinio ac arhosiad byr - opsiwn i brynu cinio yng Ngwesty Gadlys
1.45pm	Dwyrain Bae Cemlyn Cerdded i Erddi Cestyll, safle'r tŷ a'r ardd lysiau, a Felin Gafnan Dewis i gerdded i Porth y Pistell, gan ddibynnu ar y tywydd
3.00pm	Arhosiad byr posibl
3.30pm	Gorllewin Bae Cemlyn, Esgair Gemlyn a golygfa o Dwmpath E arfaethedig
5.00pm	Dychwelyd i Safle Wylfa Newydd

Diwrnod 2: Dydd Iau 14 Chwefror 2019

Amser	Lleoliad
08:15am	Yr Awdurdod Archwilio a chynrychiolwyr yr Ymgeisydd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon â buddiant a gadarnhawyd i gyfarfod wrth y Roadking Truckstop, Caergybi, Parc Cybi
09:00am	Y Fali, gan gynnwys mynedfa'r iard nwyddau a chylchfan J3 yr A5025/A55.
9:45am	Llanfachraeth – opsiwn i weld adran 3 o'r cynigion priffordd all-lein
10.30am	Llanfaethlu – Cyfleusterau oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer
11.00am	Arhosiad byr posibl
11.30am	Tregele – y briffordd a materion cysylltiedig ar yr A5025 gan gynnwys mynediad i'r ysguboriau sydd wedi'u haddasu gerllaw'r fynedfa i Ardal Datblygu Wylfa Newydd
12.00 canol dydd	Tregele – cyffordd yr A5025 gyda Theras Cromlech, Tregele a datblygiad hirgul yr A5025
1.00pm	Safle caled gerllaw Tir-a-mor-uchaf ar yr A5025.
1.30pm	Cinio ac arhosiad byr - opsiwn i brynu cinio yng Ngwesty Gadlys
2.45pm	Cael golwg ar Safle Lliniaru Ecolegol SODdGA Tŷ Du.
3.15pm	Cael golwg ar y safle posibl Llety Gweithwyr Dros Dro yn Rhosgoch
4.00pm	Cael golwg ar Safleoedd Lliniaru Ecolegol SODdGA Cors Gwawr a Chae Canol Dydd.
5.00pm	Dychwelyd i Barc Cybi



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

To all Interested Parties

Your Ref:

Our Ref: EN010080

Date: 1 February 2019

Dear Sir/Madam

Planning Act 2008 (as amended) and The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rule 16

Application by Horizon Nuclear Power Limited for an Order Granting Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station

Notification of Accompanied Site Inspection (ASI)

We write to advise you that the following ASI will be held on Wednesday 13 and Thursday 14 February 2019. A draft list of locations to be visited is set out at **Annex A** to this letter and the full itinerary will be published on our website no later than the week before the ASI.

Please note, before the start time on the first day of the ASI, the Examining Authority (ExA) will be viewing the location of the Marine Off-Loading Facility (MOLF) at the proposed Wylfa Newydd Development Area (WNDA). For logistical and security reasons it is necessary to limit attendance at this site and therefore only representatives of the Applicant, Natural Resources Wales and the Isle of Anglesey County Council will accompany the ExA. A note providing a summary of this part of the visit will be published as soon as possible after the ASI.

Notwithstanding the above, please be advised that interested parties are welcome to join the inspection at various points along the route.

Please note the ExA will also be carrying out further unaccompanied inspections during the Examination.

Notification and Itinerary for an Accompanied Site Inspection

Date	Meeting place	Time	Address of Meeting Place
Wednesday 13 February 2019	Wylfa Newydd Development Area.	Commence at 09:00	Fisherman's Car Park (nearest postcode is LL67 0DN)
Thursday 14 February 2019	Roadking Truckstop, Holyhead, Parc Cybi,	Commence at 08:15	Roadking Truckstop Holyhead, Parc Cybi, Kingsland, Holyhead LL65 2YQ

At the site inspection

Please note that the ExA's inspection of sites is not an opportunity to provide any oral representations on the project or discuss evidence. It is an opportunity for the ExA to look at the physical features that can be seen on, or from, the sites. Participants may be invited by the ExA to point out specific features or sites of interest. Those who wish to do so are welcome to contribute in Welsh. Translation facilities will be available during the site inspection.

Clothing

It will be necessary for all parties to wear appropriate sturdy footwear and weatherproof clothing. It is recommended that participants bring and wear high visibility jackets when walking on the public highway.

Joining the site inspection

The inspection will proceed from site to site and attendees where possible are to provide their own transport to the various locations. The inspection at each site will be open to all and carried out on foot from parking locations. Approximate timings have been added. It is not possible to predict precisely how long each part of the inspection will last and therefore the timetable is indicative. Parties wishing to join the inspection should attend the advertised start point in good time – details of this will be set out in the full itinerary.

The ExA will not wait for parties who are not present at the start point at the notified time. Parties intending to join en route should notify the Planning Inspectorate by **midday Thursday 7 February 2019** and confirming:

- a contact telephone number;
- whether they will be attending the whole inspection or selected sites;
- if attending at selected sites, the location(s) at which they will be attending the inspection;

Please note that in order to ensure the necessary arrangements are in place, it is crucial that parties notify the Inspectorate if they wish to attend the inspection by **midday Thursday 7 February 2019**.

Sites on private land

Access onto private land is at all times by permission of the person controlling it; householders, occupiers and landowners may refuse to allow some persons accompanying the ExA onto their land. Under those circumstances the ExA will decide whether or not to proceed with that part of the inspection and may ask those refused access to wait outside.

Comfort Stop

Please note refreshments will not be provided. However time has been allocated in the site inspection for a stop where participants will also be able to access lunch facilities – details of this will be set out in the full itinerary. Arrangements will also be made if possible for comfort stops during the morning and afternoon.

Notifications

To ensure the smooth running of the ExA's inspection, any changes in attendance should be notified to the Case Manager Kay Sully at the postal or email address above as soon as possible and no later than **midday Thursday 7 February 2019**. Please provide contact details and ensure the Planning Inspectorate is made aware of any special access requirements for any participants.

Cancellations

Please note that in the unlikely event that the ASI has to be cancelled because of unforeseen circumstances, we shall endeavour to contact attendees beforehand but we would advise that you should regularly check the Planning Inspectorate's project website which can be viewed here:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/?ipcsection=overview>

If you have any further queries, please do not hesitate to contact the Case Team.

Yours faithfully

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Lead Member of the Panel of Examining Inspectors

Annex A – -Draft list of locations to be visited

Draft list of locations to be visited

Day 1: Wednesday 13 February 2019

Time	Location
08:15am	ExA and representatives of the Applicant, Isle of Anglesey County Council and Natural Resources Wales to meet at Wylfa Newydd Site Office (LL67 0AA) for security clearance.
09.00am	Fisherman's Car Park (nearest postcode is LL67 0DN) Walk to Dame Sylvia Crowe's wooded mounds, the Tre'r Gof SSSI, site of accommodation campus and Wylfa Head including the multi-use games area site and the cooling water outfall.
11.00am	Possible comfort stop TBC
11.30am	Traeth Bach Car Park (LL67 0HA), West Cemaes Walk west along the Wales Coast Path to representative viewpoint 13
12.00 noon	Traeth Bach Car Park (LL67 0HA), West Cemaes Walk south along the west of Cemaes on footpath 20/007/1 to the A5025
12.45pm	Lunch and comfort stop - option to purchase lunch at the Gadlys Hotel
1.45pm	Cemlyn Bay East Walk to Cestyll Gardens, site of house and kitchen garden and Felin Gafnan Optional walk to Porth y Pistell weather dependent
3.00pm	Possible comfort stop TBC
3.30pm	Cemlyn Bay West, Esgair Gemlyn and view of proposed Mound E
5.00pm	Return to Wylfa Newydd Site

Day 2: Thursday 14 February 2019

Time	Location
08:15am	ExA and representatives of the Applicant, Isle of Anglesey County Council, Natural Resources Wales and confirmed interested parties to meet at Roadking Truckstop, Holyhead, Parc Cybi
09:00am	Valley including goods yard entrance and A5025/A55 J3 roundabout.
9:45am	Llanfachraeth – option to view section 3 of the offline highway proposals
10.30am	Llanfaethlu – Offsite Power Station Facilities
11.00am	Possible Comfort stop TBC
11.30am	Tregele – highway and associated issues on the A5025 including the entrance to the barn conversions near the WNDA entrance
12.00 noon	Tregele – junction of A5025 with Cromlech Terrace, Tregele and A5025 ribbon development
1.00pm	Hard standing neighbouring Tir-a-mor-uchaf on A5025.
1.30pm	Lunch and comfort stop - option to purchase lunch at the Gadlys Hotel
2.45pm	View SSSI Ecological Mitigation Site of Ty Du.
3.15pm	View the potential TWA site at Rhosgoch
4.00pm	View the SSSI Ecological Mitigation Sites of Cors Gwawr and Cae Canol Dydd.
5.00pm	Return to Parc Cybi